

Mabwysiadu: Gweld y plentyn cyfan



Mae **mabwysiadu** yn ffordd o roi teulu diogel a chariadus i blant nad oes modd iddyn nhw gael eu magu mwyach gan eu teulu genedigol.

Mae pobl yn dewis mabwysiadu am lawer o wahanol resymau. Mae rhai yn penderfynu mabwysiadu yn dilyn profiadau o anffrwythlondeb ac, i rai, mabwysiadu yw eu dewis cyntaf er mwyn dechrau neu ymestyn eu teulu.

Mae plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu wedi cael dechrau heriol mewn bywyd a bydd rhai wedi cael profiad o ryw fath o golled drwy gael eu derbyn i ofal. Er nad oes dwywaith ei bod yn heriol, mae dod yn rhiant sy'n mabwysiadu'n newid bywydau, mae'n wobrwyl iawn ac mae'n rhoi sefydlogrwydd, sylfaen gadarn a chariad i blant.

#GweldYPlentynCyfan

Y plant sy'n aros hiraf am deulu i'w mabwysiadu yw ein blaenoriaeth. Y rhain yw'r plant sydd ag anawsterau meddygol a datblygiadol neu anawsterau dysgu; plant sy'n frodyr a chwiorydd i ddau neu dri, a lle mae plentyn hŷn ac iau yn aml. Byddwn yn blaenoriaethu eich cais os gallwch ateb anghenion y plant hyn.

Gweld y plentyn cyfan er mwyn gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd chi a'u bywyd nhw.

Helen & Gareth, sydd wedi mabwysiadu dau blentyn ag anghenion ychwanegol



"Wrth gwrs mae wedi bod yn her, ond fydden ni ddim yn eu newid mewn unrhyw ffordd. Mae'n rhan annatod ohonyn nhw."

Mae pobl sy'n mabwysiadu plant yn:

- **Sengl, yn briod neu mewn perthynas:** Nid yw eich rhywioldeb yn berthnasol. Y prif beth yw bod eich bywyd cartref yn sefydlog.
- **21 oed neu'n hŷn:** Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau a chroesewir ceisiadau gan bobl o bob oedran, cyhyd â'ch bod dros 21 oed.
- **Perchen ar eu cartref neu'n rhentu:** Yn syml, mae angen i chi ddangos bod gennych le a sefydlogrwydd i ofalu am blant wrth iddyn nhw dyfu i fyny.
- **Gwneud pob math o swyddi:** Nid oes angen i chi ennill unrhyw swm penodol o arian, ond mae angen i chi allu dangos na fyddai mabwysiadu'n eich rhoi mewn sefyllfa ariannol anodd.

Mae angen i fabwysiadwyr fod yn:

Ymroddedig: Mae'r broses asesu i ddod yn fabwysiadwr yn drylwyr, felly bydd angen i chi fod yn sicr mai mabwysiadu yw'r peth iawn i chi. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn eich helpu i ystyried y materion ac yn eich cefnogi gydol yr amser.

Llawr egni: Mae'n rhaid i chi allu dangos y gallwch fuddsoddi amser ac egni mewn datblygu eich perthynas gyda'r plentyn rydych yn ei fabwysiadu/ mabwysiadu.

Ymwybodol: Mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol bod mabwysiadu plentyn, er yn beth gwobrwyl iawn, yn gallu bod yn heriol hefyd. Bydd angen i chi dderbyn bod gan blentyn sy'n cael ei fabwysiadu/ mabwysiadu orffennol a'i bod yn bwysig iawn i chi roi cefnogaeth iddo/iddi i ddeall eu hanes a'u teulu genedigol.

Empathetig: Bydd y rhan fwyaf o blant sy'n cael eu mabwysiadu heddiw yn cadw rhyw fath o gysylltiad gyda'u teulu genedigol, naill ai drwy lythyr bob bliwyddyn neu, weithiau, drwy gysylltiad wyneb yn wyneb (e.e. pan gaiff brodyr a chwiorydd eu gwahanu). Mae'n bosibl bydd rhywfaint o gysylltiad yn parhau hefyd gyda'u teulu maeth os yw hyn yn bwysig i'r plentyn.

Gyda'n cefnogaeth gallwch fabwysiadu - cysylltwch â ni heddiw: